## Enghreifftiau o eiddo sydd wedi ei ailddatblygu

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Gyngor Bro Morgannwg drawsnewid eiddo gwag yn gartrefi ledled Bro Morgannwg. Mae benthyciadau di-log ar gael drwy'r cynlluniau Troi Tai'n Gartrefi a Benthyciadau Gwella Tai.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r cynllun Troi Tai'n Gartrefi ym mis Ebrill 2012 a'r cynllun Benthyciadau Gwella Tai ym mis Ebrill 2015.

Ym mis Chwefror 2018, addaswyd y telerau cyllido ac ailenwyd y benthyciadau. Mae Cyngor Bro Morgannwg nawr yn cynnig Benthyciad Eiddo Gwag i Landlordiaid, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer eiddo y mae angen gwaith adnewyddu arnynt cyn cael eu gosod neu'u gwerthu (mae hyn yn debyg i'r Cynllun Troi Tai'n Gartrefi blaenorol). Hefyd cynigir Benthyciad Eiddo Gwag i Berchen-feddianwyr i alluogi perchenogion eiddo i fyw yn eu heiddo eu hunain sy'n wag o ganlyniad i'r ffaith bod angen gwaith arno.




Yn ogystal, mae Benthyciad i Berchen-feddianwyr ar gael i berchenogion eiddo sy'n byw mewn eiddo y mae angen gwaith arno.

Ers i'r cynlluniau ddod i rym, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi rhoi benthyg dros £1,250,000 i ymgeiswyr. Mae nifer o anheddau gwag wedi cael eu haddasu i fyw ynddynt yn sgil y cyllid hwn, sydd yn ei dro wedi arwain at gyflawni targedau Llywodraeth Cymru.

**Isod, gwelir enghreifftiau o eiddo gwag hirdymor sydd wedi cael eu trawsnewid trwy'r fenthyciadau tai a hwylusir gan Gyngor Bro Morgannwg:**

*Roedd eiddo ar Stryd Fawr Penarth yn wag am beth amser ac yn ystod 2018/2019 cafodd ei drawsnewid yn eiddo 2 ystafell wely unigryw wedi defnyddio arian benthyciadau tai. Cafodd yr eiddo ei osod yn llwyddiannus yn fuan ar ôl cwblhau'r gwaith.*




*Yn ystod 2018, cafodd lle storio ar Salop Place, Penarth ei drawsnewid yn annedd 2 ystafell wely trwy ddefnyddio arian benthyciadau tai ac erbyn hyn mae wedi'i osod ac mae rhywun yn byw yno.*





*Cafodd byngalo ar Ash Grove, y Barri, oedd wedi bod yn wag am amser hir ei drawsnewid yn ystod 2017/2018 gydag arian benthyciad tai. Mae'r eiddo wedi'i osod yn llwyddiannus i deulu ers cwblhau'r gwaith.*



*Yn 2017, dechreuodd project adnewyddu ar fyngalo ar Laura Street, y Barri oedd wedi bod yn wag am 5 mlynedd. Roedd angen benthyciad tai er mwyn cwblhau'r gwaith. Ers cwblhau'r gwaith yn 2018, mae teulu o 4 wedi bod yn byw yn yr eiddo.*









*Cafodd eiddo gwag oedd yn cael ei ddefnyddio'n uned fasnachol ac 1 uned breswyl ar Heol Holton, y Barri ond oedd wedi bod yn wag am 5 mlynedd ei drawsnewid yn 2018 yn 4 uned breswyl ac er mwyn diweddaru'r lle masnachol. Cafodd arian benthyciadau tai er mwyn trawsnewid yr unedau preswyl. Mae hyn yn cynnig tai fforddiadwy ac erbyn hyn mae rhywun yn byw ym mhob un o'r unedau.*









*Yr Hen Orsaf Dân, Court Road, Y Barri. Cawsai'r adeilad hwn ei esgeuluso ers blynyddoedd maith, ond bellach, mae wedi'i drawsnewid i saith fflat a chyn-dŷ coets.*



*Fflatiau fu'n wag dros gyfnod hir uwchben safle masnachol gwag ar Holton Road, y Barri. Drwy gymorth benthyciad Troi Tai'n Gartrefi, cafodd yr eiddo ei drawsnewid i bum fflat.*



*Mae’r adeilad gwag hwn ar Winston Road, y Barri, wedi cael ei drawsnewid i ddau fflat drwy gymorth benthyciad Troi Tai’n Gartrefi.*



*Nid oedd yr unedau swyddfa ar Stanwell Road ym Mhenarth mewn defnydd, ac maent wedi cael eu trawsnewid i dri fflat drwy gymorth y cynllun benthyciadau.*



*Gyda chymorth gan y cynllun Houses into Homes, mae perchennog yr eiddo gwag hwn ar Broad Street wedi adnewyddu 3 fflat.*



